YSGOL BRYNREFAIL

AMGUEDDFA LLECHI, LLANBERIS

Trueni i'r astudiaeth o'r hen ddiwydiant llechi yn Llanberis gael ei drefnu ar ddiwrnod pan oedd glaw erchyll yn pistyllio'n ddi-baid drwy'r dydd. Ond yr oedd yn agoriad llygad i flwyddyn 7 o glywed y byddai'r chwarelwyr yn dal i weithio er gwaeledd y tywydd. Yn fwy syfrdanol oedd y wybodaeth y byddai plant yr un oedran a nhw

yn dechrau ar gyfnod o naw mis o brentisiaeth, a hwnnw'n ddi-dâl.

Cafwyd hanes diddorol o waith y chwarelwr a chyfle i weld y grefft o hollti a naddu llechen.

Pan ofynnwyd am wirfoddolwr i ymgymryd â'r gwaith hollti neidiodd Dylan Efans, pwy arall dŵad?, i'r adwy